

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI



COD LIYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Ebrill, 2018

MYNEGAI

CYNNWYS:

1. CYFLWYNIAD
2. PAM MABWYSIADU COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL?
3. BETH YW LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL?
4. PAM YDYM NI ANGEN COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL?
5. EGWYDDORION LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL YR AWDURDOD
6. MONITRO AC ADOLYGU
7. Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

1. CYFLWYNIAD

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai pwrpasau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw

- I warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc
- I hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi fod yr Awdurdod, wrth ddilyn y pwrpasau hyn, yn ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ymrwymo i egwyddorion llywodraethu corfforaethol da wrth gyflenwi ei bwrpasau statudol. Trwy ddatblygiad, mabwysiadu a gweithredu parhaus a monitro Cod Llywodraethu Corfforaethol mae'r Awdurdod yn cadarnhau'n ffurfiol ei ymrwymadau a bwriadau parhaus. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / SOLACE Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2007) a'i atodiad a gyhoeddwyd yn 2012.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn disgrifio'n gynhwysfawr ymrwymiad yr Awdurdod i a dealltwriaeth o lywodraethu corfforaethol, ac mae'n amlinellu'r trefniadau mae wedi eu rhoi yn eu lle i sicrhau gweithredu a monitro effeithiol parhaus.

Hefyd mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymrwymiad ar y cyd gan Aelodau a swyddogion i'r egwyddorion sydd ynddo, yn ogystal â datganiad o sicrwydd wedi'i lofnodi ar y cyd gan Gadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod egwyddorion llywodraethu corfforaethol nid yn unig yn cael eu sefydlu'n llawn a'u rhoadru drwy'r Awdurdod, ond fod ganddynt gefnogaeth lawn yr holl Aelodau yn ogystal â'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn unol â hynny bydd ein prosesau penderfynu'n sicrhau bod yr egwyddorion canlynol yn parhau i fod yn ganolog i gynllunio a chyflawni ein gwaith er mwyn cyfrannu at y Nodau Llesiant.

Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

- Y tymor hir
- Integreiddio
- Cydlafurio
- Cynnwys
- Atal

Nodau Llesiant

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach

- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

2. PAM MABWYSIADU COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL?

Mae mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ffordd arall i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddangos cydnabyddiaeth o'r ffaith fod llywodraeth leol effeithiol yn dibynnu ar sefydlu a chynnal hyder pobl leol mewn Aelodau a swyddogion yr Awdurdod. Mae llywodraethu corfforaethol da'n sylfaen i hygyrdded a hyder yn yr arweinyddiaeth ac mae'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer darparu holl wasanaethau'r Awdurdod.

Mae mabwysiadu, monitro a chydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol yn helpu i wella cyfreithlondeb yr Awdurdod a chynyddu'r ymddiriedaeth a osodir yn yr Awdurdod gan bobl leol, ymwelwyr a rhanddeiliaid.

Mae llywodraethu cryf, tryloyw ac ymatebol yn galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i roi dinasyddion yn gyntaf trwy ddilyn ei nodau ac amcanion yn effeithiol, a thrwy eu sylfaenu gyda mecanweithiau priodol ar gyfer rheoli perfformiad a risg. Er mwyn cynnal hyder dinasyddion, rhaid i'r mecanweithiau hyn fod yn gadarn a'u gweld i fod yn gadarn.

Yn gyffredinol, mae mabwysiadu ac ymrwymo i'r Cod Llywodraethu Corfforaethol hwn yn rhoi sail yn ei le ar gyfer ymrwymiad ar draws yr Awdurdod i'r ffordd mae'n bwriadu cyflawni ei rôl o arwain a chynrychioli'r gymuned, darparu cyfleoedd i bawb, a sicrhau fod ganddo ffocws cwsmer cryf ym mhob peth a wna'r Awdurdod.

3. BETH YW LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL?

Mae gan yr Awdurdod rôl allweddol mewn cyflenwi ei bwrpasau statudol er budd y gymuned leol a'r genedl. Mae llywodraeth leol effeithiol yn dibynnu ar hyder y cyhoedd yn yr Aelodau a swyddogion yr Awdurdod, ac mae systemau effeithiol o Lywodraethu Corfforaethol yn rhoi hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio sut mae sefydliadau'n cyfarwyddo a rheoli'r hyn a wnânt, ac mae Llywodraethu Corfforaethol da angen i awdurdodau lleol gynnal eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n arddangos atebolrwydd, bod yn agored a gonestrwydd. I awdurdodau lleol mae hyn hefyd yn cynnwys y modd mae Awdurdod Parc Cenedlaethol yn perthnasu i'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweld Llywodraethu Corfforaethol fel gwneud y peth iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn dull amserol, cynhwysol, agored, onest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a phrosesau, a hefyd y diwylliant a gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac arwain yr Awdurdod a sut mae'n ymateb i ac ymgysylltu a'i rhanddeiliaid.

4. PAM YDYM NI ANGEN COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL?

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn bwysig oherwydd ei fod yn hanfodol mewn:

- Darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel

Yn genedlaethol, mae gwendidau llywodraethu wedi arwain at fethiant gwasanaeth ac, ar brydiau, at drasiedi. Ar y llaw arall, mae sefydliadau sy'n perfformio'n uchel gyda threfniadau llywodraethu effeithiol.

- Codi ymddiriedaeth y cyhoedd

Cynyddir ymddiriedaeth y cyhoedd pan fo ansawdd gwasanaethau maent hwy a'u teuluoedd yn eu profi'n uchel, a phan fo sefydliadau'n cael eu gweld i fod yn agored ac onest wrth gyfathrebu am eu perfformiad, ac o ddysgu o'u camgymeriadau.

Mae'r Cod Llywodraethu wedi'i seilio ar y chwe Egwyddor ganlynol fel y'u diffinnir gan CIPFA a SOLACE ac ymgorfforir egwyddorion llywodraethu a gwerthoedd Creu'r Cysylltiadau fel yr amlinellir gan Lywodraeth Cymru (LIC) a welir mewn italig.

1. Canolbwyntio ar bwrpas yr Awdurdod ac ar ganlyniadau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth i'r ardal leol; (*Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf*); (*Cyflawni Gwerth am Arian*).
2. Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau sydd wedi eu diffinio'n glir; (*Gwybod Pwy sy'n Gwneud Beth a Pham*);
3. Hyrwyddo'r gwerthoedd i'r Awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau ymddygiad uchel; (*Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Byw*);
4. Cymryd penderfyniadau hysbys a thryloyw sy'n amodol ar graffu effeithiol a rheoli risg; (*Meithrin Cyflenwi Arloesedd*);
5. Datblygu cynhwysedd a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol; (*Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu*);
6. Ymgysylltu gyda phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn; (*Ymgysylltu ag Eraill*);

Mae bob un o'r egwyddorion hyn yn rhan bwysig o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae'r Cod hwn yn disgrifio'r ffordd y bydd yr Awdurdod yn cwrdd â ac yn dangos ei ymrwymiad i Lywodraethu Corfforaethol da yng nghyswllt y chwe Egwyddor hyn, sut y bydd yn ei weithredu a phwy fydd yn monitro ac adolygu'r trefniadau llywodraethu.

5. EGWYDDORION LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL YR AWDURDOD

Egwyddor 1

Canolbwyntio ar bwrpas yr Awdurdod ac ar ganlyniadau i'r gymuned yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth a chreu a gweithredu gweledigaeth i'r ardal leol.

LIC – Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf – Cyflawni Gwerth am Arian “Mae llywodraethu da'n golygu canolbwyntio ar anghenion a phrofiadau pobl, gwneud cyflenwi gwasanaeth o ansawdd uchel yn bwrpas y sefydliad” – “Mae Llywodraethu da'n golygu edrych ar ôl adnoddau trethdalwyr yn iawn, a'u defnyddio'n ofalus i gyflenwi gwasanaethau effeithiol o ansawdd uchel”.

Gwelir pwrpas a gweledigaeth yr Awdurdod i ardal y Parc yn ei Gynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod defnyddwyr yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel p'un ai yn uniongyrchol, mewn partneriaeth neu drwy gomisiynu. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a bod y trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth hynny'n derbyn gwerth ardderchog am arian. I sicrhau hyn:-

Bydd yr Awdurdod yn esbonio ac yn adrodd yn rheolaidd ar weithgareddau, perfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

Darperir gwybodaeth amserol a dealladwy am weithgareddau, cyflawniadau, perfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy gyhoeddi:

- Cynllun Corfforaethol;
- Cynllun Gwaith Corfforaethol;
- Cyfrifon wedi'u harchwilio'n allanol (yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol);
- Gwybodaeth perfformiad a ddilyswyd yn annibynnol.
- Manylion prosiectau a gweithgareddau drwy'r wasg a chyfryngau eraill

Mae'n ofynnol ar yr Awdurdod i adolygu ei Gynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol bob pum mlynedd a bydd yn parhau i gyfrannu at baratoi'r Strategaeth Gymunedol berthnasol yn ei ardal.

Bydd yr Awdurdod yn amcanu at gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n rhoi gwerth am arian a bydd yn cyflawni hyn drwy:

- Gyflenwi gwasanaethau i gwrdd ag anghenion ei wahanol gymunedau, cwsmeriaid a rhanddeiliaid, a rhoi prosesau yn eu lle i sicrhau eu bod yn gweithredu'n gynaliadwy, yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd yn ymarferol;

- Cynnal arolygon cwsmer ac ymchwil marchnad arall,
- Dyrannu adnoddau i gwrdd ag Amcanion yr Awdurdod;
- Datblygu perthynas a phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau sector gyhoeddus eraill a'r sectorau preifat a gwirfoddol.
- Ymateb yn briodol i ganfyddiadau ac argymhellion Archwilwyr Allanol ac Arolygwyr Statudol a rhoi trefniadau'n eu lle i weithredu ar weithrediadau a gytunwyd;
- Cymharu gwybodaeth ynglŷn â'n gwasanaethau gyda gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau tebyg ac asesu pam fod lefelau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd yn wahanol rywle arall.

Egwyddor 2

Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau sydd wedi eu diffinio'n glir.

LIC – Gwybod Pwy sy'n Gwneud Beth a Pham

“Mae llywodraethu da'n golygu fod pawb sy'n rhan o gyflenwi gwasanaeth yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd a sut fyddant yn cyflenwi'r deilliannau gorau bosib”.

Mae arweinyddiaeth effeithiol angen eglurder ynghylch rolau Aelodau'r Awdurdod a pherthynas waith adeiladol rhwng aelodau a staff. Mae parch naill at y llall i'r rolau hyn yn

hanfodol. Yn olaf, mae angen i'r Awdurdod sicrhau fod rhanddeiliaid yn deall ein rôl a'r lefelau o wasanaeth y gallant ddisgwyl.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y dynodir ac y dyrennir y rolau a chyfrifoldebau ar gyfer llywodraethu'r Awdurdod fel ei bod yn glir pwy sy'n atebol am y penderfyniadau a wneir.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy:

- Ethol Cadeirydd yr Awdurdod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol
- Penodi Pwyllgorau'n flynyddol i gynnal chyfrifoldebau'r Awdurdod yn unol â'r Cynllun Dirprwyo mabwysiedig
- Penodi Pencampwyr i yrru testunau penodol ymlaen
- Bod â chynllun o gyfrifoldebau'r Awdurdod sydd wedi dirprwyo i'r Prif Weithredwr;
- Penderfyniadau a gymerir gan swyddogion dan bwerau sydd wedi dirprwyo iddynt yn cael eu cofnodi'r gywir.
- Sicrhau fod partneriaethau'r Awdurdod â threfniadau llywodraethu clir yn eu lle h.y. eglurder ynghylch statws cyfreithiol y bartneriaeth a rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid.

Egwyddor 3

Hyrwyddo'r gwerthoedd i'r Awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau ymddygiad uchel.

LIC – Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Byw

“Mae llywodraethu da'n golygu creu tîm a all wneud y gwaith yn dda, mae ei hymddygiad wedi'i wreiddio mewn gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus”.

Dim ond os oes gan y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus y safonau uchaf o ymddygiad ac annog eraill yn yr un modd y gellir cael safonau uchel o ymddygiad a llywodraethu effeithiol.

Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu diwylliant o ymddygiad wedi'i seilio ar werthoedd a rennir, egwyddorion moesegol ac ymddygiad da.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy sefydlu ac adolygu:

- Cod Ymddygiad Aelodau;
- Cod Ymddygiad Swyddogion,

- Cofrestrï o Fuddiannau, Lletygarwch a Rhoddion
- Rheolau Rheoleiddio Contract a Safonau Ariannol
- Strategaeth Gwrth-Dwyll a Llygredd a Pholisi Chwythu'r Chwiban.

Egwyddor 4

Cymryd penderfyniadau hysbys a thryloyw sy'n amodol ar graffu effeithiol a rheoli risg.

LIC – Meithrin Cyflenwi Arloesedd

“Mae llywodraethu da'n golygu bod yn greadigol ac arloesol wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus – gan weithio o dystiolaeth, a chymryd risgiau rheoledig er mwyn cyflawni gwell deilliannau”.

Mae gwneud penderfyniadau gwybodus yn rhan hanfodol o lywodraethu corfforaethol da. Mae angen i Awdurdodau fod yn drylwyr wrth archwilio opsiynau ond hefyd yn agored i sylwadau a barn oddi wrth bob sector o'r gymuned.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y broses gwneud penderfyniadau yn cynnwys asesiad manwl o risg, gan gynnwys;

- Goblygiadau ariannol, cyfreithiol ac adnoddau dynol (bydd awduron adroddiadau'n atebol os ydynt yn darparu cyngor eu hunain);
- Asesiadau effaith cydraddoldeb a chynladwyedd;
- Risgiau a gweithredoedd lliniaru.

Bydd yr Awdurdod yn agored ac onest am y modd y cymerir ac y cofnodir penderfyniadau.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy:

- Sicrhau fod adroddiadau gwneud penderfyniadau yn cynnwys cyngor gan yr holl swyddogion statudol ac esbonio'r cefndir mewn ffordd agored a thryloyw.
- Yn cofnodi'r holl benderfyniadau a wneir gan Bwyllgorau neu a ddirprwyir i swyddogion a gwneud y manylion ar gael yn gyhoeddus.
- Bod â rheolau a gweithdrefnau sy'n dangos sut y gwneir penderfyniadau;

Bydd gan yr Awdurdod Strategaeth Rheoli Risg a bydd yn gweithredu system rheoli risg sy'n cynorthwyo i gyflawni amcanion a blaenoriaethau corfforaethol, yn diogelu enw da'r Awdurdod ac asedau eraill ac yn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y system rheoli risg;

- Yn dynodi'n ffurfiol ac yn rheoli risgiau;
- Yn cynnwys aelodau yn y broses rheoli risg;
- Yn cysylltu risgiau i reolaethau ariannol a rhai mewndol allweddol eraill;
- Yn ymgorffori cynllunio gwasanaeth a pharhad busnes;
- Yn adolygu, ac os oes angen, diweddarau ei brosesau rheoli risg o leiaf yn flynyddol.

Egwyddor 5

Datblygu cynhwysedd a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.

LIC – Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu

“Mae llywodraethu da'n golygu bob amser ddysgu a gwella cyflenwad gwasanaeth”.

Mae sicrhau fod aelodau a swyddogion â'r sgiliau angenrheidiol i weithredu'r sefydliad yn agwedd bwysig ar lywodraethu.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Awdurdod â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad maent eu hangen i berfformio'n dda.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy:

- Gweithredu Strategaeth Datblygu Aelodau;
- Datblygu sgiliau a chapasiti arweinyddiaeth ar draws yr Awdurdod;
- Datblygu a chynnal y broses Arfarnu i swyddogion;
- Datblygu a chynnal y broses Cyfweiliad Datblygiad Personol i aelodau
- Rhaeadrdu gwybodaeth i aelodau a swyddogion.

Egwyddor 6

Ymgysylltu gyda phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

LIC – Ymgysylltu ag Eraill

“Mae llywodraethu da’n golygu sicrhau ceisio â harneisio barn a chyfraniadau staff, y cyhoedd a phartner asiantaethau er mwyn cyflawni’r deilliannau gorau bosib”.

Nid yn unig mae rhaid i awdurdodau lleol wneud pethau yn y ffordd iawn ond rhaid iddynt hefyd wynebu’r her ychwanegol o gael eu gweld yn gwneud y peth iawn yn y ffordd iawn. Golyga hyn ymgysylltu llawn â phobl leol ble bo’n briodol drwy broses a gynllunnir ac y rhoddir adnoddau iddi mewn ffordd deg.

Bydd yr Awdurdod yn ceisio ac yn ymateb i farn rhanddeiliaid a’r Gymuned.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn drwy:

- Ffurio a chynnal cysylltiadau gydag arweinwyr sefydliadau eraill;
- Darparu a chefnogi ffyrdd i’r cyhoedd gyflwyno pryderon cymunedol i’r Awdurdod,
- Ymgysylltu mewn ymgynghoriad mewn ffordd ystyrlon a thrwy fecanweithiau sy’n ceisio dal barn bob parti perthnasol sydd â budd.
- Gweithio gyda phartneriaid sector gyhoeddus eraill i helpu cwsmeriaid a rhanddeiliaid ddeall ein cyfrifoldebau priodol, a’r hyn y ceisiwn ei gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth.
- Cynnal ac adolygu gweithdrefn gwynion effeithiol.

6. MONITRO AC ADOLYGU

Mae Llywodraethu Corfforaethol da angen

- Cyfranogiad gweithredol Aelodau a swyddogion ar draws yr Awdurdod,
- Datblygiad, gweithrediad a gwellhad parhaus diwylliant Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod.
- Paratoi, mabwysiadu a chynnal Cod Llywodraethu Corfforaethol cyfredol, gan gynnwys trefniadau i sicrhau ei weithrediad a defnydd parhaus.
- Cydlynu ac adolygu’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Hyrwyddo arfer gorau mewn Llywodraethu Corfforaethol drwy’r Awdurdod cyfan.

Mae’r Awdurdod yn gyfrifol am fonitro ac adolygu trefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu’n rheolaidd drwy:

- Waith Archwilio Mewnol ac Allanol;
- Gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro gweithio mewn Partneriaeth ac ar gyfer mentrau megis Fforwm Eryri, Yr Ysgwrn a Phlas Tan y Bwlch.
- Adroddiadau a baratoir gan reolwyr gyda chyfrifoldeb am agweddau o'r Cod hwn;
- Asiantaethau adolygu ac Arolygiaethau eraill.

7. Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL


Bob blwyddyn bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a fydd yn darparu asesiad cyffredinol o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod a gwerthusiad o'r prif reolaethau sydd yn eu lle i reoli prif risgiau llywodraethu'r Awdurdod.

Bydd y Datganiad hefyd yn darparu manylion o ble mae angen gwneud gwelliannau.


Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan y Tîm Rheoli a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod, cyn cael ei lofnodi gan Gadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr.

Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol yr Awdurdod a bydd yn cael ei archwilio gan ein Harchwilwyr Allanol.

Arwyddwyd



Owain Wyn
Cadeirydd.



Emyr Williams
Prif Weithredwr.